**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 141 – Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau (D)

**Eisteddfod yr anifeiliaid, Bethan Barlow**

Eisteddfod yr anifeiliaid:
Syniad gwahanol iawn;
Ceffylau mawr yn clocsio
A defaid yn dangos eu dawn.

Cefin y ci yn arwain
Côr o hwyaid gwyn,
Iola'r iâr yn llefaru
I gynulleidfa syn.

Gwartheg yn y gwyddonle,
Ffrindiau'r buarth mewn band,
Cathod ym mhabell y celf a chrefft,
Moch mewn pafiliwn mawr crand.

Ond does dim anifeiliad -
Trionglau o goch, gwyn a gwyrdd
a chaeau llawn plant sy yma.
Croeso i 'Steddfod yr Urdd!